



Cyd-bwyllgor Tyfu Canolbarth Cymru

**Datganiad o Gyfrifon
2025-26**

CYN ARCHWILIAD

	TUDALEN
Adroddiad naratif	3 - 6
Datganiad o gyfrifoldebau am y Datganiad o Gyfrifon	7
Adroddiad yr Archwilydd i Gyd-bwyllgor Tyfu Canolbarth Cymru	8 - 10
Datganiadau ariannol	
Datganiad o incwm a gwariant cynhwysfawr	11
Datganiad o symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn	12
Y fantolen	12
Datganiad o lif arian parod	13
Nodiadau i'r Datganiad o Gyfrifon	14 - 20

1.0 Cyflwyniad

Mae'r Datganiad o Gyfrifon hwn ar gyfer 2025-26 yn darparu cofnod o sefyllfa ariannol y flwyddyn ar gyfer Cyd-bwyllgor Tyfu Canolbarth Cymru. Ar gyfer y ddwy flwyddyn ariannol ddiwethaf, dim ond datganiad blynyddol 'ffurf fer' yr oedd yn ofynnol i Gyd-bwyllgor Tyfu Canolbarth Cymru ei lunio. Dan Reoliadau Cyfrifyddu, blwyddyn ariannol 2025-26 oedd y flwyddyn gyntaf pan oedd yn ofynnol llunio Datganiad o Gyfrifon ffurfiol – felly dyma'r Datganiad o Gyfrifon cyntaf sydd wedi'i lunio ar gyfer Cyd-bwyllgor Tyfu Canolbarth Cymru.

2.0 Trosolwg trefniadaethol

2.1 Ffeithiau allweddol

Mae Bargaen Twf Canolbarth Cymru yn ymrwymiad i fuddsoddi £110 miliwn (heb gynnwys cyllid gan awdurdodau lleol, cyllid gan y sector preifat a chyllid cyfatebol arall), a ariennir ar y cyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru (caiff arian Llywodraeth y DU ei drosglwyddo drwy Lywodraeth Cymru). Mae'n cefnogi portffolio o raglenni a phrosiectau y bwriedir iddynt ysgogi twf economaidd cynaliadwy ar draws y canolbarth dros gyfnod hir. Mae Bargaen Twf Canolbarth Cymru yn ymdrin â'r cyfnod o 15 mlynedd rhwng 2023/24 a 2037/38.

Mae Bargaen Twf Canolbarth Cymru yn gweithredu oddi mewn i fframwaith diffiniedig ar gyfer llywodraethiant a sicrwydd, a sefydlwyd drwy Gytundeb y Fargen Derfynol, y Cytundeb Rhwng Awdurdodau (IAA3) rhwng Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys, yr Achos Busnes Portffolio Strategol a Strategaeth Bargaen Twf Canolbarth Cymru ar gyfer Llywodraethiant ac Adrodd.

2.2 Y Cyd-bwyllgor

Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru, a ffurfiwyd fel Cyd-bwyllgor o'r ddau awdurdod lleol, yw'r corff gwneud penderfyniadau ffurfiol ar gyfer Bargaen Twf Canolbarth Cymru. Cyngor Sir Ceredigion yw'r Corff Atebol, ac mae'n gyfrifol am weinyddu cyllid y Fargen Twf yn briodol ac am sicrhau bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer rheolaeth ariannol. Caiff cyfrifoldebau eraill eu rhannu rhwng y ddau awdurdod lleol – er enghraifft, mae Cyngor Sir Powys yn cyflawni swyddogaeth y Swyddog Cyfreithiol a Monitro. Caiff gweithgarwch cydlyn, adrodd a rheoli'r Portffolio ei gefnogi gan Swyddfa Rheoli'r Portffolio.

2.3 Uchelgais Tyfu Canolbarth Cymru

Ein uchelgais yw bod y canolbarth yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd sydd ar gael i greu a hybu twf economaidd a chymdeithasol. Drwy oresgyn ei heriau, gall y canolbarth ddod yn rhanbarth mwy craff a theg a all fynd i'r afael â'r her y mae'n ei hwynebu o ran cynhyrchiant.

2.3 Gweledigaeth Tyfu Canolbarth Cymru

Erbyn 2035, bydd y canolbarth yn 'rhanbarth mentrus ac unigryw sy'n cyflawni twf economaidd a ysgogir gan arloesi, sgiliau, cysylltedd a swyddi mwy cynhyrchol sy'n hybu cymunedau ffyniannus a dwyieithog'.

2.4 Ffynonellau cyllid

Mae'r Cyd-bwyllgor yn cael y rhan fwyaf o'i gyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU drwy Fargen Twf Canolbarth Cymru sy'n werth £110 miliwn dros gyfnod o 15 mlynedd. Cafodd Cytundeb y Fargen Derfynol ei lofnodi gan bob parti ym mis Ionawr 2022.

3.0 Llywodraethiant

3.1 Datganiad Llywodraethiant Blynyddol

Mae Datganiad Llywodraethiant Blynyddol y Cyd-bwyllgor yn darparu trosolwg o drefniadau llywodraethiant a'u heffeithiolrwydd yn ystod 2025-26. Gan mai dyma'r Datganiad o Gyfrifon ffurfiol cyntaf sydd wedi'i lunio, dyma'r flwyddyn gyntaf hefyd i Ddatganiad Llywodraethiant Blynyddol llawn gael ei lunio.

3.2 Rheoli risg

Mae'r aelodau a'r Swyddogion yn gyfrifol am sicrhau bod risg yn cael ei hystyried yn y penderfyniadau a wnânt a bod trefniadau addas yn cael eu rhoi ar waith i reoli risg. Mae'r Cyd-bwyllgor yn gyfrifol am oruchwylio trefniadau'r Cyd-bwyllgor ar gyfer rheoli risg.

Mae cofrestr risg ffurfiol yn nodi'r risgiau (bygythiadau) o ran cyflawni nodau'r Cyd-bwyllgor. Caiff y gofrestr ei hadolygu a'i diweddarau yn barhaus. Y tro diwethaf iddi gael ei hadolygu'n ffurfiol gan y Cyd-bwyllgor yn ystod 2025/26 oedd ar 19 Mawrth 2026, a arweiniodd at y sgorau isod ar gyfer risg:

Title	Category	Inherent Score	Current Score	Trend
Match Funding Not Secured	C3 - Financial	20	16	↘ Decreasing
Impact of Welsh Government Senedd Elections (may 2026) on Growth Deal Activity	C9 - Political	9	9	→ Stable
No Finance Lead	C3 - Financial	9	9	→ Stable
Early Release of Funding Prior to Fbc Approval	C3 - Financial	12	8	↘ Decreasing
Supply Chain Bottlenecks Due to Concurrent Project Delivery	C11 - Projects	9	6	↘ Decreasing
Benefits Not Realised	C6 - Objectives	9	6	↘ Decreasing
Key Developer Dependency	C10 - Professional	12	4	↘ Decreasing
Portfolio Contingency Pipeline	C6 - Objectives	12	4	↘ Decreasing
Monitoring Benefits on Reporting System	C3 - Financial	4	4	→ Stable
Recruitment to Pomo Vacancies	C10 - Professional	9	3	↘ Decreasing

4.0 Strategaeth a dyrannu adnoddau

4.1 Rhagolygon

Mae'r Trysorlys a phroffwydwy'r allanol yn disgwyl cyfnod anodd ar gyfer twf economaidd, ac yn fwy felly oherwydd effaith y gwrthdaro yn y Dwyrain Canol, sy'n gefndir heriol ar gyfer gwireddu uchelgais Tyfu Canolbarth Cymru. Mae'r Cyd-bwyllgor yn deall bod cysylltiad agos iawn rhwng cynnydd o ran cyflawni prosiectau a sefyllfa ariannol noddwyr prosiectau.

5.0 Perfformiad ariannol

5.1 Crynodeb o berfformiad ariannol

Mae'r crynodeb o berfformiad ariannol yn darparu trosolwg lefel uchel o sefyllfa ariannol y Cyd-bwyllgor ar 31 Mawrth 2026. Yn y paragraffau canlynol, gwelir y sefyllfa derfynol o ran alldro ar gyfer 2025-26 o gymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyd-bwyllgor ar 5 Chwefror 2025, ynghyd â gwariant arall o ran cymorth refeniw a ddarparwyd i ddatblygu prosiectau a'r cyllid a ddarparwyd i raglenni a phrosiectau (heb fod proffil cyllideb wedi'i bennu ar gyfer 2025-26) ac a gymeradwywyd gan y Cyd-bwyllgor.

5.2 Gwariant ac incwm

	Cyllideb 2025-26 £'000	Gwirioneddol 2025-26 £'000
Gwariant		
Swyddfa Rheoli'r Portffolio	701	393
Gwasanaethau cymorth awdurdodau lleol	33	39
Cymorth allanol	135	114
Cymorth refeniw i ddatblygu prosiectau	70	50
Gwariant ar raglenni a phrosiectau a gymeradwywyd gan y Fargen Twf	-	436
Cyfanswm gwariant gros	939	1,032
Incwm		
Cyfraniadau gan yr awdurdodau sy'n aelodau	(270)	(250)
Cyllid y Fargen Twf (drwy Lywodraeth Cymru)	(669)	(760)
Cyllid y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol	-	(6)
Cyllid grant Llywodraeth Cymru	-	(16)
Cyfanswm incwm	(939)	(1,032)
Cost net gwasanaethau	-	-
Llog buddsoddi		(614)
Gwarged net	-	(614)
Trosglwyddiad i'r gronfa wrth gefn ar gyfer Cydraddoli Cyllido		614
Sefyllfa derfynol o ran alldro	-	-

5.3 Sylwadau ar berfformiad ariannol 2025-26

Cyfanswm gwariant gros y Cyd-bwyllgor ar gyfer 2025-26 oedd £1.032 miliwn. Roedd yn cynnwys gwariant o £436,000 a oedd yn ymwneud â chyflawni rhaglenni a phrosiectau. Mae'r llog buddsoddi a enillwyd, sef £614,000, wedi'i drosglwyddo i'r gronfa wrth gefn ar gyfer Cydraddoli Cyllido. Cyfanswm balans y gronfa honno ar ddiwedd y flwyddyn oedd £912,000.

6.0 Datganiadau ariannol craidd – yr elfennau a'r manylion

Mae'r datganiadau ariannol craidd, a gaiff eu paratoi gan ddefnyddio Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, yn cynnwys y canlynol:

- Y datganiad o incwm a gwariant cynhwysfawr – mae'n dangos y gost gyfrifyddol yn ystod y flwyddyn a oedd yn gysylltiedig â darparu gwasanaethau, wedi'i mesur ar sail Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol yn hytrach na'r gost a ariannwyd mewn gwirionedd o drethiant.
- Y datganiad o symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn – mae'n dangos y symudiadau mewn gwahanol gronfeydd wrth gefn sydd gan y Cyd-bwyllgor.
- Y fantolen – mae'n egluro'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth o ran gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan y Cyd-bwyllgor a'r cronfeydd wrth gefn sydd gan y Cyd-bwyllgor.
- Y datganiad o lif arian parod – mae'n crynhoi mewn-lif ac all-lif arian parod ac elfennau sy'n cyfateb i arian parod gyda thrydydd partïon.

Gan nad oes unrhyw wahaniaeth rhwng sut y caiff gwariant blynyddol ei ddefnyddio a'i ariannu o adnoddau fel yr adroddir wrth y tîm rheoli, o gymharu â'r adnoddau hynny a ddefnyddir neu a enillir gan y Cyd-bwyllgor yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol (ar sail Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol), nid oes angen datganiad o ddadansoddiad o wariant a chyllid.

7.0 Gwybodaeth bellach

Mae gan bobl sydd â diddordeb hawl statudol i weld y cyfrifon cyn bod yr archwiliad blynyddol yn cael ei gwblhau. Dylai unrhyw un sydd am gael gwybodaeth bellach neu esboniad am y cyfrifon gysylltu â: df.technicians@ceredigion.gov.uk

Datganiad o gyfrifoldebau am y Datganiad o Gyfrifon

Cyfrifoldebau'r Cyd-bwyllgor

Mae'n ofynnol i'r Cyd-bwyllgor:

- Wneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol yn briodol, a sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny.
- Ar gyfer y Cyd-bwyllgor Tyfu Canolbarth Cymru hwn, y swyddog dan sylw yw Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gweithredol: Cyllid a Chaffael (Prif Swyddog Cyllid a Swyddog Adran 151) Cyngor Sir Ceredigion.
- Rheoli ei faterion er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol ac er mwyn diogelu ei asedau.
- Cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

Cadeirydd Cyd-bwyllgor Tyfu Canolbarth Cymru

Dyddiad: / / 2026

Cyfrifoldebau Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gweithredol: Cyllid a Chaffael (Prif Swyddog Cyllid a Swyddog Adran 151) Cyngor Sir Ceredigion

Mae Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gweithredol: Cyllid a Chaffael (Prif Swyddog Cyllid a Swyddog Adran 151) Cyngor Sir Ceredigion yn gyfrifol am:

- baratoi Datganiad o Gyfrifon y Cyd-bwyllgor yn unol ag arferion priodol fel y cânt eu nodi yn nogfen CIPFA/LASAAC, sef y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod).

Wrth baratoi'r Datganiad o Gyfrifon hwn, mae Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gweithredol: Cyllid a Chaffael (Prif Swyddog Cyllid a Swyddog Adran 151) Cyngor Sir Ceredigion:

- Wedi dewis polisïau cyfrifyddu addas ac wedi'u gweithredu yn gyson;
- Wedi llunio barn ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol ac yn ofalus;
- Wedi cydymffurfio â'r Cod;
- Wedi cadw cofnodion cyfrifyddu priodol a oedd wedi'u diweddarau;
- Wedi cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll a mathau eraill o afreoleidd-dra.

Rwy'n ardystio bod y cyfrifon yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyd-bwyllgor Tyfu Canolbarth Cymru ar 31 Mawrth 2026 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026.

DUNCAN HALL CPFA

Swyddog Adran 151 Cyd-bwyllgor Tyfu Canolbarth Cymru

Dyddiad: 30 Mehefin 2026

Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyd-bwyllgor Tyfu Canolbarth Cymru

8.1 Datganiad o incwm a gwariant cynhwysfawr

DATGANIAD O INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR	2024-25			2025-26		
	Gwariant gros £000	Incwm £000	Gwariant net £000	Gwariant gros £000	Incwm £000	Gwariant net £000
Gwariant						
Swyddfa Rheoli'r Portffolio	386			393		
Gwasanaethau cymorth awdurdodau lleol	32			39		
Cymorth allanol	199			114		
Cymorth referniw i ddatblygu prosiectau	0			50		
Cyllid ar gyfer rhaglenni a phrosiectau	0			436		
Cyfanswm gwariant gweithredu	617			1,032		
Incwm						
Cyllid grant y Fargen Twf oddi wrth Lywodraeth Cymru		(392)			(760)	
Cyfraniadau gan Gyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys		(200)			(250)	
Cyllid y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol		0			(6)	
Cyllid grant Llywodraeth Cymru – Buddsoddiad y sector preifat a datblygu llif prosiectau		0			(16)	
Cyfanswm incwm gweithredu		(592)			(1032)	
Cost net gwasanaethau - (Gwarged) / Diffyg			25			0
Gweithgareddau ariannu a buddsoddi						
Incwm llog buddsoddi			(195)			(614)
Cyfanswm (gwarged)/diffyg o ran darparu gwasanaethau			(170)			(614)
Incwm a gwariant cynhwysfawr arall			0			0
Cyfanswm (gwarged)/diffyg o ran incwm a gwariant cynhwysfawr			(170)			(614)

8.2 Datganiad o symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn

Gwirioneddol 2024-25	Cyfanswm cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi sy'n ddefnyddiadwy £000
Balans ar 1 Ebrill 2024	(128)
(Gwarged) / Diffyg o ran darparu gwasanaethau	(170)
(Cynnydd) / Gostyngiad yn y flwyddyn	(170)
Balans ar 31 Mawrth 2025	(298)

Gwirioneddol 2025-26	Cyfanswm cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi sy'n ddefnyddiadwy £000
Balans ar 1 Ebrill 2025	(298)
(Gwarged) / Diffyg o ran darparu gwasanaethau	(614)
(Cynnydd) / Gostyngiad yn y flwyddyn	(614)
Balans ar 31 Mawrth 2026	(912)

8.3 Y fantolen

Y FANTOLEN AR 31 MAWRTH	Nodyn rhif	2024-25		2025-26	
		£000	£000	£000	£000
Dyledwyr byrdymor	9.12	100		140	
Arian parod ac elfennau sy'n cyfateb i arian parod	9.15	15,544		27,329	
Cyfanswm asedau cyfredol			15,644		27,469
Credydwyr byrdymor	9.13	(11)		(125)	
Grantiau a gafwyd ymlaen llaw	9.14	(760)		(6,769)	
Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol			(771)		(6,894)
Grantiau a gafwyd ymlaen llaw	9.14	(14,575)		(19,663)	
Rhwymedigaethau hirdymor			(14,575)		(19,663)
ASEDAU NET			298		912
Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy - Cronfa wrth gefn ar gyfer Cydraddoli Cyllido	9.11		(298)		(912)
CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN			(298)		(912)

8.4 Datganiad o lif arian parod

DATGANIAD O LIF ARIAN PAROD	2024-25 £000	2025-26 £000
<u>GWEITHGAREDDAU GWEITHREDU</u>		
<u>Cysoni'r datganiad o incwm a gwarant cynhwysfawr â llif arian refeniw net</u> (Gwarged)/Diffyg net o ran darparu gwasanaethau	170	614
<u>Addasiadau i warged neu ddiffyg net o ran darparu gwasanaethau ar gyfer symudiadau nad ydynt yn rhai arian parod</u> Symudiadau o ran dyledwyr refeniw, credydwyr, grantiau a gafwyd ymlaen llaw	11,457	11,171
Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu	11,627	11,785
<u>CYNNYDD/(GOSTYNGIAD) NET MEWN ARIAN PAROD NEU ELFENNAU SY'N CYFATEB I ARIAN PAROD</u> Arian parod ac elfennau sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod yr adroddir yn ei gylch Arian parod ac elfennau sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod yr adroddir yn ei gylch	3,917 15,544	15,544 27,329
<u>CYNNYDD/(GOSTYNGIAD) MEWN ARIAN PAROD NEU ELFENNAU SY'N CYFATEB I ARIAN PAROD</u>	(11,627)	(11,785)

Mae dadansoddiad o ddyledwyr a chredydwyr i'w weld yn nodyn 9.12 a nodyn 9.13 ac mae dadansoddiad o arian parod ar ddiwedd y flwyddyn i'w weld yn nodyn 9.15.

9.1 Polisiau cyfrifyddu:

9.1.1 Egwyddorion cyffredinol

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyd-bwyllgor ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 a'i sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn, sef 31 Mawrth 2026. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn mynnu bod y Cyd-bwyllgor yn paratoi Datganiad o Gyfrifon blynyddol, ac mae'r Rheoliadau hynny'n mynnu bod y cyfrifon yn cael eu paratoi'n unol ag arferion cyfrifyddu priodol. Yn bennaf, mae'r arferion hynny'n cynnwys y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26, wedi'i ategu gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Y confensiwn cyfrifyddu pennaf a fabwysiadwyd yn y Datganiad o Gyfrifon yw cost hanesyddol, wedi'i haddasu drwy ailbrizio rhai categorïau o asedau ac offerynnau ariannol anghyffredol.

9.1.2 Arian parod ac elfennau sy'n cyfateb i arian parod

Maent yn arian a gedwir er mwyn bodloni ymrwymïadau byrdymor o ran arian parod, yn hytrach nag yn bethau a fuddsoddir at ddibenion eraill, a gellir eu troi'n hwylus yn symiau hysbys o arian parod. Caiff yr holl drafodion arian parod eu gweinyddu gan Gyngor Sir Ceredigion gan nad oes gan Gyd-bwyllgor Tyfu Canolbarth Cymru ei gyfrif banc ei hun. Drwy gydol y flwyddyn, mae balansiau wedi cael eu buddsoddi drwy sefydliadau cymeradwy mewn offerynnau ariannol byrdymor yn unol â'r protocolau a eglurir yn Strategaeth Rheoli Trysorlys Cyngor Sir Ceredigion.

9.1.3 Eitemau anghyffredin, eitemau eithriadol, addasiadau'n ymwneud â'r flwyddyn flaenorol, a digwyddiadau ar ôl y cyfnod yr adroddir yn ei gylch

Eitemau anghyffredin – Ni fydd unrhyw eitemau incwm neu wariant yn cael eu trin fel rhai anghyffredin. Felly, bydd pob eitem yn cael ei chynnwys yn un o linellau penodol y gwarged neu'r diffyg o ran darparu gwasanaethau neu yn yr incwm a'r gwariant cynhwysfawr arall.

Eitemau eithriadol – Pan fydd eitemau incwm a gwariant yn rhai o bwys, bydd eu natur a'u swm yn cael eu datgelu ar wahân, naill ai ar wyneb y cyfrif incwm a gwariant cynhwysfawr neu yn y nodiadau i'r cyfrifon.

Oni chaniateir fel arall gan y Cod, bydd addasiadau o bwys yn ymwneud â'r cyfnod blaenorol yn arwain at ailddatgan ffigurau'r flwyddyn flaenorol a datgelu'r effaith.

Bydd digwyddiadau o bwys ar ôl diwedd y cyfnod yr adroddir yn ei gylch, os yn berthnasol ar ddyddiad y fantolen, yn diwygio'r Datganiad o Gyfrifon. Bydd digwyddiadau eraill yn cael eu datgelu gydag amcangyfrif o'r effaith ariannol debygol. Os caiff y Datganiad o Gyfrifon ei ddiwygio ar ôl iddo gael ei gyhoeddi a chyn bod yr archwiliad yn cael ei gwblhau, bydd y swyddog ariannol cyfrifol yn ailardystio'r Datganiad o Gyfrifon diwygiedig fel datganiad sy'n disodli'r un a gyhoeddwyd yn flaenorol.

9.1.4 Costau gweithwyr

Bydd costau arferol cydnabyddiaeth ariannol yn cael eu codi fel traul yn ystod y cyfnod y maent yn berthnasol iddo.

9.1.5 Prydlesi a threfniadau tebyg i brydlesi

Nid oes gan Gyd-bwyllgor Tyfu Canolbarth Cymru unrhyw brydlesi na threfniadau tebyg i brydlesi a fyddai'n cael eu cydnabod yn brydlesi arian.

9.1.6 Gorbenion a gwasanaethau cymorth

Caiff y datganiad o incwm a gwariant cynhwysfawr ei baratoi ar sail sy'n cyd-fynd ag adroddiadau ariannol y Cyd-bwyllgor.

9.1.7 Darpariaethau, rhwymedigaethau amodol ac asedau amodol

Caiff darpariaethau eu gwneud os oes digwyddiad sy'n esgor ar rwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongladwy i'r Cyd-bwyllgor, y mae angen yn ôl pob tebyg ei setlo drwy drosglwyddo buddion economaidd neu botensial gwasanaethau, ac y gellir llunio amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth honno. Mae'n bosibl na fydd darpariaethau a gaiff eu cynnwys yn y cyfrifon yn rhai y gellir eu gorfodi gan y gyfraith, a dim ond o gyfres o ffeithiau mewn sefyllfa benodol y gellir dod i gasgliad yn eu cylch. Felly, nid yw'r ffaith eu bod wedi'u cynnwys yn y cyfrifon yn golygu bod rhwymedigaeth wedi'i derbyn.

Caiff darpariaethau eu codi fel traul i'r llinell briodol o ran gwasanaeth yn y datganiad o incwm a gwariant cynhwysfawr, a hynny yn y flwyddyn y daw'r Cyd-bwyllgor yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth. Cânt eu mesur fel yr amcangyfrif gorau, ar ddyddiad y fantolen, o'r gwariant sy'n ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth, gan ystyried risgiau ac ansicrwydd perthnasol. Pan gaiff taliadau eu gwneud maes o law, cânt eu codi ar y ddarpariaeth a gaiff ei chario yn y fantolen. Caiff setliadau a amcangyfrifwyd eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol – os yw'n dod yn llai na thebygol y bydd trosglwyddo buddion economaidd yn ofynnol (neu os gwneir setliad sy'n llai na'r disgwyl), caiff y ddarpariaeth ei gwrthdroi a'i chredydu'n ôl i'r gwasanaeth perthnasol. Mae rheoliadau'n darparu'r pŵer i wneud cofnod addasu ar gyfer rhai darpariaethau yn yr adran cost net gwasanaethau ac yn y fantolen. Os disgwylir y bydd rhywfaint neu'r cyfan o'r taliad sy'n ofynnol i setlo darpariaeth yn cael ei adennill oddi wrth barti arall (e.e. yn dilyn hawliad yswiriant), ni chaiff hynny ei gydnabod yn incwm i'r gwasanaeth perthnasol oni bai ei bod bron yn sicr y bydd ad-daliad yn dod i law os bydd y Cyd-bwyllgor yn setlo'r rhwymedigaeth.

Mae rhwymedigaeth amodol yn codi os oes digwyddiad sy'n esgor ar rwymedigaeth bosibl i'r Cyd-bwyllgor, na fydd ei bodolaeth yn cael ei chadarnhau ond pan fydd digwyddiadau ansicr yn y dyfodol yn digwydd neu beidio, nad oes gan y Cyd-bwyllgor reolaeth lwyr arnynt. Mae rhwymedigaethau amodol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall, ond naill ai nad yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau neu na ellir mesur y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Ni chaiff rhwymedigaethau amodol eu cydnabod yn y fantolen. Yn hytrach, cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon. Maent yn cynnwys sefyllfaoedd pan ddisgwylir achosion cyfreithiol a hawliadau eraill sy'n ymdrin ag ystod o faterion. Maent yn ymwneud â materion ffeithiol a chyfreithiol anodd a chymhleth sy'n amodol ar lawer o gymhlethdodau ac ansicrwydd, sy'n cynnwys ffeithiau ac amgylchiadau pob achos penodol ond nad ydynt yn gyfyngedig i'r ffeithiau a'r amgylchiadau hynny. Oherwydd yr ansicrwydd sy'n elfen hanfodol o faterion o'r fath, mae'n aml yn anodd rhagweld y canlyniad terfynol.

Mae ased amodol yn codi os oes digwyddiad sy'n esgor ar ased posibl i'r Cyd-bwyllgor, na fydd ei fodolaeth yn cael ei chadarnhau ond pan fydd digwyddiadau ansicr yn y dyfodol yn digwydd neu beidio, nad oes gan y Cyd-bwyllgor reolaeth lwyr arnynt. Ni chaiff asedau amodol eu cydnabod yn y fantolen. Yn hytrach, cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon os yw'n debygol y bydd yna fewnlif o fuddion economaidd neu botensial gwasanaethau.

9.1.8 Grantiau llywodraeth a chyfraniadau eraill

Cyffredinol

Rhoddir cyfrif am grantiau llywodraeth a chyfraniadau eraill ar sail croniadau a phan gydymffurfiwyd â'r amodau ar gyfer eu cael a phan geir sicrwydd rhesymol y bydd y grant neu'r cyfraniad yn dod i law.

Grantiau a chyfraniadau refeniw

Os oes grant neu gyfraniad refeniw wedi dod i law, a bod yna amodau sydd heb eu bodloni ar ddyddiad y fantolen, bydd y grant neu'r cyfraniad yn cael ei gydnabod fel grant neu gyfraniad a gafwyd ymlaen llaw. Pan fydd amodau'r grant wedi'u bodloni, caiff ei gydnabod fel incwm yn y

datganiad o incwm a gwariant cynhwysfawr.

Ad-dalu grant

Os caiff grant ei ad-dalu, bydd yn berthnasol yn y lle cyntaf i unrhyw grant neu gyfraniad a gafwyd ymlaen llaw. Os yw'r ad-daliad yn fwy nag unrhyw grant neu gyfraniad a gafwyd ymlaen llaw, neu os na chafwyd grant neu gyfraniad ymlaen llaw, bydd yr ad-daliad yn cael ei gydnabod fel traul yn y datganiad o incwm a gwariant cynhwysfawr.

9.1.9 Cronfeydd wrth gefn

Dosbarthu

Caiff cronfeydd wrth gefn eu hystyried yn rhai 'defnyddiadwy', sef rhai sydd ar gael i gynorthwyo gwariant yn y dyfodol, neu'n rhai 'annefnyddiadwy', sef rhai sy'n ofynnol at ddibenion cyfrifyddu ariannol.

Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy

Bydd Cyd-bwyllgor Tyfu Canolbarth Cymru yn llywodraethu rheolaeth ar yr holl gronfeydd wrth gefn, a'r defnydd a wneir ohonynt, gan gymryd cyngor gan y swyddog a ddynodwyd i fod yn gyfrifol am weinyddu materion ariannol y Cyd-bwyllgor. Bydd gan bob cronfa wrth gefn ddefnyddiadwy bwrpas dynodedig. Caiff y gwariant y telir amdano o'r cronfeydd wrth gefn ei ddangos pan eir iddo, a hynny yn adran briodol y datganiad o incwm a gwariant cynhwysfawr.

Cronfeydd wrth gefn andefnyddiadwy

Ni chaiff unrhyw gronfeydd wrth gefn andefnyddiadwy eu cynnal gan Gyd-bwyllgor Tyfu Canolbarth Cymru.

Adrodd

Adroddir ynghylch arian a neilltuir i'r cronfeydd wrth gefn ac o'r cronfeydd wrth gefn yn y datganiad o symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn.

9.1.10 Treth ar Werth (TAW)

Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi heb gynnwys TAW, i'r graddau y gellir adennill TAW.

9.2 Safonau Cyfrifyddu sydd wedi'u cyhoeddi ond nad ydynt eto wedi'u mabwysiadu

Mae'r Cod Ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd-bwyllgor ddatgelu gwybodaeth ynghylch effaith y newid cyfrifyddol a fyddir gan safon newydd sydd wedi'i chyhoeddi ond nad yw eto wedi'i mabwysiadu. Ar 31 Mawrth 2026 nid oes yna unrhyw safonau perthnasol, nac unrhyw ddiwygiadau i safonau presennol, sydd wedi'u cyhoeddi ond nad ydynt eto wedi'u mabwysiadu gan y Cod, a fydd yn cael effaith sylweddol yn y datganiadau ariannol.

9.3 Barn allweddol wrth roi polisïau cyfrifyddu ar waith

Wrth roi'r polisïau cyfrifyddu a eglurwyd ar waith, rhaid i'r Cyd-bwyllgor ddod i farn benodol am drafodion cymhleth neu drafodion sy'n cynnwys ansicrwydd am ddigwyddiadau yn y dyfodol. O ystyried cwmplas cyfyngedig y trafodion yn ystod y flwyddyn, nid oes unrhyw achosion o ddod i farn allweddol y mae angen tynnu sylw atynt.

9.4 Rhagdybiaethau a wnaed ynghylch y dyfodol a ffynonellau pwysig eraill o ansicrwydd wrth amcangyfrif

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cynnwys ffigurau a amcangyfrifwyd sydd wedi'u seilio ar ragdybiaethau a wnaed gan y Cyd-bwyllgor ynghylch y dyfodol, neu sy'n ansicr fel arall. Gwneir amcangyfrifon gan ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan nad oes modd pennu balansiau gyda sicrwydd, gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon. Mae'r eitemau ym mantolen y Cyd-bwyllgor ar 31 Mawrth 2026, y mae risg y gallent gael eu haddasu mewn blynyddoedd ariannol dilynol, yn

ymwneud â grantiau byrdymor a hirdymor a gafwyd ymlaen llaw. Gall yr adegau pan wneir taliadau i'r amryw brosiectau fod yn wahanol i'r sefyllfa a ragdybiwyd.

9.5 Dadansoddi gwariant ac incwm yn ôl eu natur

Caiff gwariant ac incwm y Cyd-bwyllgor eu dadansoddi fel a ganlyn:

Dadansoddi gwariant ac incwm yn ôl eu natur	2024/25 £000	2025/26 £000
Gwariant		
Gweithwyr	353	331
Cludiant	1	1
Cyflenwadau a gwasanaethau	263	214
Cyllid ar gyfer prosiectau	0	486
Cyfanswm gwariant	617	1,032
Incwm		
Cyfraniadau partneriaid	(200)	(250)
Grantiau	(392)	(776)
Cyllid partneriaeth	0	(6)
Llog ac incwm buddsoddi	(195)	(614)
Cyfanswm incwm	(787)	(1,646)
(Gwarged) / Diffyg o ran darparu gwasanaethau	(170)	(614)

9.6 Manylion cydnabyddiaeth ariannol

Ceir rolau uwch-swyddogion yng Nghyd-bwyllgor Tyfu Canolbarth Cymru, na chânt eu cyflogi gan y Cyd-bwyllgor, ac nid ydynt yn cael unrhyw gydnabyddiaeth ariannol drwy'r rolau ychwanegol y maent yn eu cyflawni ar ran y rhanbarth. Mae'r rolau hynny'n cynnwys:

Prif Weithredwyr
Swyddog Adran 151
Swyddog Monitro

Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Sir Powys

I gael gwybodaeth am y gydnabyddiaeth ariannol a gaiff yr unigolion uchod, dylai defnyddwyr ddarllen Datganiad o Gyfrifon yr awdurdod lleol perthnasol.

9.7 Rhwymedigaeth o ran cyflogau a phensiynau

Fel rheol, caiff Swyddogion a gyflogir yn uniongyrchol i gynorthwyo'r Cyd-bwyllgor eu cyflogi dan gontract drwy Gyngor Sir Ceredigion (e.e. gweithwyr yn Swyddfa Rheoli'r Portffolio), a chaiff rhai aelodau o staff eu cyflogi gan Gyngor Sir Powys, gyda'r costau'n cael eu hailgodi wedyn ar y Cyd-bwyllgor. Cyfrifoldeb yr awdurdod cyflogi yw rhoi cydnabyddiaeth ariannol i Swyddogion ac ymrwymo i'r rhwymedigaethau o ran pensiynau'n awr ac yn y dyfodol a allai godi o'r trefniadau hynny. Mae'r Cyd-bwyllgor yn ad-dalu pob cost yng nghyswllt cyflogau ac argostau, gan gynnwys unrhyw gostau pensiynau sy'n ymwneud â chyflogwyr, ac mae'n rhoi cyfrif am hynny yn ei gyfrif incwm a gwariant. Ni chaiff unrhyw rwymedigaeth ei chydabod yn natganiadau'r Cyd-bwyllgor ar gyfer rhwymedigaethau o ran pensiynau yn y dyfodol.

9.8 Gweithgareddau buddsoddi

Caiff balansiau eu cadw yng nghyfrifon banc Cyngor Sir Ceredigion a'u buddsoddi yn unol â Strategaeth Rheoli Trysorlys gymeradwy Cyngor Sir Ceredigion. Caiff llog ei gyfrifo ar sail y gyfradd sylfaenol namyn 0.2% a chaiff ei neilltuo ar gyfer y Cyd-bwyllgor. Drwy gydol y flwyddyn, mae balansiau wedi'u buddsoddi drwy sefydliadau cymeradwy mewn offerynnau ariannol byrdymor yn unol â'r protocolau a eglurir yn y Strategaeth Rheoli Trysorlys a

ddefnyddir. Mae Strategaeth Rheolaeth Ariannol Tyfu Canolbarth Cymru yn datgan y bydd llog sy'n deillio o wargedion llif arian parod yn cael ei neilltuo a'i gadw er budd Bargaen Twf Canolbarth Cymru mewn cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi.

9.9 Ffioedd archwilio

Dyma amcangyfrif o'r swm taladwy i Archwilio Cymru ar gyfer 2025-26, ynghyd â'r swm gwirioneddol a dalwyd yng nghyswllt 2024-25:

	Gwirioneddol 2024-25 £'000	Amcangyfrif 2025-26 £'000
Ffioedd taladwy i Archwilio Cymru yng nghyswllt gwasanaethau archwilio allanol a gyflawnwyd gan yr Archwilydd Penodedig ar gyfer y flwyddyn	2	14
Cyfanswm	2	14

9.10 Partïon cysylltiedig

Mae'n ofynnol i'r Cyd-bwyllgor ddatgelu trafodion materol â phartïon cysylltiedig – cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli'r Cyd-bwyllgor neu ddylanwadu arno neu i gael eu rheoli gan y Cyd-bwyllgor neu fod dan ei ddylanwad. Mae datgelu'r trafodion hynny'n galluogi darllenwyr i asesu'r graddau y gallai gallu'r Cyd-bwyllgor i weithredu'n annibynnol fod wedi'i gyfyngu, neu'r graddau y gallai'r Cyd-bwyllgor fod wedi sicrhau'r gallu i gyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd â'r Cyd-bwyllgor.

Gallai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ddylanwadu ar allu'r Cyd-bwyllgor i wneud penderfyniadau neu gyflawni'n weithredol, drwy delerau ac amodau grantiau neu drwy ddeddfwriaeth a rheoliadau. Mae manylion y grantiau a gafwyd wedi'u hamlinellu yn y cyfrif incwm a gwariant.

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y fframwaith statudol ac sy'n darparu'r rhan fwyaf o gyllid y Cyd-bwyllgor (mae'r Cyd-bwyllgor yn cael y cyllid Bargaen Twf a ddarperir gan Lywodraeth y DU drwy Lywodraeth Cymru).

Buddiannau arwyddocaol

Mae'n ofynnol i aelodau'r Cyd-bwyllgor a'r Swyddogion ddatgan gwrthdaro posibl o ran buddiannau, sy'n deillio o gyflogaeth a threfniadau eraill. Nid oes unrhyw wrthdaro o ran buddiannau i adrodd yn ei gylch.

Cydberthnasau o bwys

Awdurdodau lleol Powys a Cheredigion yw unig aelodau'r Cyd-bwyllgor. Felly, gall y cyrff hynny reoli gweithrediadau'r Cyd-bwyllgor yn effeithiol.

Mae'r tabl canlynol yn dangos cyfanswm y trafodion incwm a'r gwariant ynghyd â balansiau diwedd blwyddyn yng nghyswllt y ddau Gyngor:

Trafodion 2024-25 â'r awdurdodau lleol	Taliadau a wnaed i Gyd-bwyllgor Tyfu Canolbarth Cymru £000	Symiau'n ddyledus i Gyd-bwyllgor Tyfu Canolbarth Cymru £000	Incwm a gafwyd o Gyd-bwyllgor Tyfu Canolbarth Cymru £000	Symiau'n ddyledus gan Gyd-bwyllgor Tyfu Canolbarth Cymru £000
Cyngor Sir Ceredigion	100	0	(373)	0
Cyngor Sir Powys	0	100	0	(11)
Cyfanswm	100	100	(373)	(11)

Trafodion 2025-26 â'r awdurdodau lleol	Taliadau a wnaed i Gyd-bwyllgor Tyfu Canolbarth Cymru £000	Symiau'n ddyledus i Gyd-bwyllgor Tyfu Canolbarth Cymru £000	Incwm a gafwyd o Gyd-bwyllgor Tyfu Canolbarth Cymru £000	Symiau'n ddyledus gan Gyd-bwyllgor Tyfu Canolbarth Cymru £000
Cyngor Sir Ceredigion	125	0	(289)	0
Cyngor Sir Powys	0	125	(18)	(22)
Cyfanswm	125	125	(307)	(22)

9.11 Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy

Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy	Balans ar 1 Ebrill 2024 £000	Cyfraniad o gyfrifon referniw £000	Cyfraniad i gyfrifon referniw £000	Balans ar 31 Mawrth 2025 £000
Cronfa wrth gefn gyffredinol	(25)	0	25	0
Cronfa wrth gefn ar gyfer Cydraddoli Cyllido	(103)	(195)	0	(298)
Cyfanswm cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy	(128)	(195)	25	(298)

Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy	Balans ar 1 Ebrill 2025 £000	Cyfraniad o gyfrifon referniw £000	Cyfraniad i gyfrifon referniw £000	Balans ar 31 Mawrth 2026 £000
Cronfa wrth gefn gyffredinol	0	0	0	0
Cronfa wrth gefn ar gyfer Cydraddoli Cyllido	(298)	(614)	0	(912)
Cyfanswm cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy	(298)	(614)	0	(912)

9.12 Dyledwyr byrdymor

	31 Mawrth 2025 £'000	31 Mawrth 2026 £'000
Symiau sy'n dod yn ddyledus cyn pen blwyddyn:		
Llywodraeth Cymru	0	15
Awdurdodau Lleol	100	125
Cyfanswm dyledwyr	100	140

9.13 Credydwyr byrdymor

	31 Mawrth 2025 £'000	31 Mawrth 2026 £'000
Symiau sy'n dod yn ddyledus cyn pen blwyddyn:		
Awdurdodau Lleol	(11)	(22)
Credydwyr eraill	0	(103)
Cyfanswm credydwyr	(11)	(125)

9.14 Grantiau a gafwyd ymlaen llaw

Mae'r grantiau byrdymor a hirdymor a gafwyd ymlaen llaw'n ymwneud â'r cyllid Bargen Twf a gafwyd oddi wrth Lywodraeth Cymru (sy'n cynnwys cyllid Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, gan fod y naill tranche a'r llall o gyllid yn dod i law oddi wrth Lywodraeth Cymru).

9.15 Arian parod ac elfennau sy'n cyfateb i arian parod

	Balans ar 1 Ebrill 2025 £'000	Balans ar 31 Mawrth 2026 £'000
Arian parod yn y banc	15,544	27,329
Cyfanswm arian parod ac elfennau sy'n cyfateb i arian parod	15,544	27,329

9.16 Rhwymedigaethau amodol

Dim.

9.17 Digwyddiadau ar ôl dyddiad y fantolen ac awdurdodi'r cyfrifon i'w cyhoeddi

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau ar ôl dyddiad y fantolen i'w nodi ar gyfer 2025/26.

Gwnaeth Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gweithredol: Cyllid a Chaffael (Prif Swyddog Cyllid a Swyddog Adran 151) Cyngor Sir Ceredigion, sy'n cyfrifyddu yn rhinwedd ei rôl fel y Swyddog Adran 151 sy'n gyfrifol am weinyddu materion ariannol **Cyd-bwyllgor Tyfu Canolbarth Cymru** yn briodol, awdurdodi cyhoeddi'r Datganiad o Gyfrifon ar 30 Mehefin 2026.

Gwasanaeth Cyllid a Chaffael
Cyngor Sir Ceredigion
Neuadd Cyngor Ceredigion Penmorfa
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0PA

cllc@ceredigion.gov.uk
www.ceredigion.gov.uk



www.tyfucanolbarth.cymru